



Comisiwn
Democratiaeth a
Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

Adroddiad blynyddol drafft ar gydnabyddiaeth ariannol 2027 - 2028

cdffc.llyw.cymru

cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair	4
Pennod 1. Cyflwyniad.....	5
Rolau uwch	5
Yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE).....	5
Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC).....	6
Aelodau cyfetholedig a lleyg.....	6
Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau)	7
Canllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol	7
Ymgysylltu.....	7
Ymaddasu.....	8
Pennod 2. Penderfyniadau ar gyfer 2027-28.....	9
Prif gynghorau	9
Penderfyniad 1/2027: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau	9
Penderfyniad 2/2027: Cyflogau a delir i aelodau uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau ..	9
Penderfyniad 3/2027: Terfyn ar gyflogau uwch sy'n daladwy i aelodau prif gynghorau.....	11
Penderfyniad 4/2027: Darpariaethau absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau.....	11
Penderfyniad 5/2027: Cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch	12
Penderfyniad 6/2027: Cyfyngiadau ar daliadau am swyddi y tu allan i'r prif gyngor	12
Penderfyniad 7/2027: Cymorth i aelodau etholedig prif gynghorau	12
Penderfyniad 8/2027: Cyflogau uwch penodol neu ychwanegol a chynorthwywyr y weithrediaeth.....	13
Penderfyniad 9/2027: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.....	13
Penderfyniad 10/2027: Taliadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer deiliaid cyflog uwch prif gynghorau.....	13
Penderfyniad 11/2027: Cyflogau ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh).....	14
Awdurdodau Parc Cenedlaethol (APC)	14
Penderfyniad 12/2027: Taliadau i aelodau APC.....	14
Awdurdodau Tân ac Achub (ATA)	15
Penderfyniad 13/2027: Taliadau i aelodau ATA.....	15
Cynghorau Cymuned a Thref (CCTh).....	16
Penderfyniad 14/2027: Taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref (CCTh).....	16
Penderfyniadau sy'n berthnasol i nifer o fathau o awdurdodau	17

Penderfyniad 15/2027: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg Cyd-bwyllgorau Corfforedig	17
Penderfyniad 16/2027: Costau teithio, cynhaliaeth, gofal, a chymorth personol ar gyfer pob awdurdod perthnasol	18
Costau milltiroedd	18
Costau teithio eraill	18
Costau cynhaliaeth	18
Costau Gofal a Thaliadau Cymorth Personol	18
Penderfyniad 17/2027: Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer prif gynghorau, APCau ac ATAAu	19
Penderfyniad 18/2027: Datganiad o Daliadau ar gyfer prif gynghorau, APCau, ATAAu a CCThau	19
Pennod 3. Crynodeb o'r penderfyniadau drafft ar gyfer 2027-28	22
Beth fydd yn digwydd nesaf	24

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg gan Trosol.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
 4ydd Llawr
 Adeilad Llywodraeth Cymru
 Parc Cathays
 CAERDYDD
 CF10 3NQ

Rhagair

A minnau'n Gadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Drafft hwn ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2027-28. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu penderfyniadau arfaethedig y Comisiwn ynglŷn â'r gydnabyddiaeth ariannol, y treuliau a'r buddion sy'n daladwy i aelodau etholedig a chyfetholedig prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol a chyd-bwyllgorau corfforedig ledled Cymru.

Mae gwaith y Comisiwn ar gydnabyddiaeth ariannol wedi cyrraedd cam pwysig. Mae etholiadau llywodraeth leol 2027 yn rhoi cyfle priodol i adolygu'r fframwaith ac ystyried a yw'n parhau i gefnogi democratiaeth leol effeithiol, hygyrch a chynrychioliadol yng Nghymru.

Mae'r penderfyniadau drafft yn yr adroddiad hwn yn ceisio cydbwysu nifer o ystyriaethau: y cyfrifoldebau a'r ymrwymiad amser a ddisgwylir gan aelodau; pwysigrwydd dileu rhwystrau rhag cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus; yr angen i amddiffyn gwerth cydnabyddiaeth ariannol rhag cael ei erydu gan chwyddiant; a'r pwysau ar gyllid cyhoeddus. Rydym wedi ystyried y fframwaith rolau uwch a'r ymagwedd at uwchraddio blynyddol yn y dyfodol.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed safbwyntiau ar ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr, fel sail ar gyfer uwchraddio eleni. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau'n ofalus cyn gwneud ei benderfyniadau terfynol.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, y swyddogion, y cyrff cynrychioliadol a'r sefydliadau partner sydd wedi cyfrannu at ein gwaith hyd yma. Mae eu tystiolaeth a'u profiad yn hanfodol i sicrhau bod y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol yn parhau i fod yn gadarn, yn gymesur ac yn addas i'r diben. Anogaf bawb sydd â diddordeb mewn democratiaeth leol yng Nghymru i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Karen Jones

Cadeirydd

Pennod 1. Cyflwyniad

1. Dyma ail adroddiad blynyddol drafft y Comisiwn ar gydnabyddiaeth ariannol.
2. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, sy'n dod yn union cyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2027, rydym wedi ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau mawr i'r fframwaith. Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau o'r fath ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad drafft hwn ar gyfer 2027-28 yn cynnwys symiau uwchraddio, lle bo'n briodol, ond yn gadael y fframwaith yn ddigyfnewid.

Rolau uwch

3. Cynhaliodd y Comisiwn arolwg o awdurdodau, eu haelodau a chyrff cynrychioliadol i ganfod p'un a yw'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol ar gyfer y rhai sydd â rolau uwch yn cydnabod ymrwymiad amser a chyfrifoldebau'r rolau hynny'n briodol.
4. Cawsom safbwyntiau cymysg, yn amrywio o ddim newid i ddiwygiadau pellgyrhaeddol i lywodraeth leol yng Nghymru. Nid oedd consensws ynglŷn ag unrhyw newid penodol i'r fframwaith presennol.
5. Heb ddigon o dystiolaeth neu gytundeb ynglŷn ag unrhyw newidiadau penodol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu na fydd unrhyw newidiadau i'r fframwaith rolau uwch ar yr adeg hon.
6. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod deiliaid rolau gweithredol yn ymwneud ag ystod o gyrrff rhanbarthol. Byddwn yn adolygu effaith y rhain yn ystod y cyfnod sydd i ddod.

Yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)

7. Ers nifer o flynyddoedd, defnyddiwyd ASHE i bennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, a chydabyddiaeth ariannol arall a gyfrifir o'r ffigur hwnnw.
8. Y ffigur a ddefnyddiwyd oedd tair rhan o bump o enillion wythnosol gros canolrifol pobl sy'n byw yng Nghymru. Teimlwyd bod defnyddio'r ffigur hwn yn alinio cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig ag enillion pobl sy'n byw yng Nghymru. Dewiswyd tair rhan o bump oherwydd bod ymchwil yn dangos bod cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn ymroi o leiaf dridiau'r wythnos i'r rôl.
9. Mae ASHE yn cael ei gyhoeddi ar ôl amserlen waith y Comisiwn ar gyfer gwneud ei benderfyniadau. Roedd y ffigur a ddefnyddiodd y Comisiwn i bennu cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27 yn ymwneud â mis Ebrill 2024. Roedd hyn yn golygu ei fod yn ddwyflwydd oed erbyn i'n penderfyniadau ddod i rym. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi'r ffigur bob mis Hydref. Mae hyn yn rhy hwyr i ni ystyried y data mwyaf cyfredol yn ein Hadroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
10. Rydym wedi ystyried mesurau eraill cynnydd mewn costau byw a chyflogau, fel y'u cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r Comisiwn o'r farn mai bwriad cynnydd mewn cydnabyddiaeth ariannol yw sicrhau nad yw aelodau etholedig yn ysgwyddo costau uwch o ganlyniad i newidiadau i gostau byw wrth iddynt gyflawni eu rôl gyhoeddus. Credwn fod mesur sy'n ymwneud â chostau byw yn briodol. Y gyfradd a ddefnyddir fel arfer i fesur cynnydd mewn costau byw yw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau perchen-feddianwyr (CPIH)¹. Y ffigur diweddaraf ar gyfer hyn ar adeg llunio'r adroddiad hwn yw ffigur mis Mai 2026, sef 3%.

¹ [Mynegeion chwyddiant a phrisiau – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

11. Ar ôl ystyried ystod eang o fesurau posibl, mae'r Comisiwn wedi cymhwyso'r cynnydd hwn i'r rhan fwyaf o lefelau cydnabyddiaeth ariannol sydd o fewn ei gylch gwaith, fel y nodwyd ym mhob penderfyniad.
12. Rydym hefyd wedi ystyried nifer o ffactorau eraill o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC)

13. Mae CBC yn fath cymharol newydd o gorff a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021². Mae pob un o'r pedwar pwyllgor yn cynnwys arweinwyr y prif gynghorau yn ei ardal a chadeirydd unrhyw awdurdod parc cenedlaethol sy'n gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ei ffiniau. Mae'r arweinwyr hyn yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu rôl o fewn eu cyrff priodol.
14. Mae pob pwyllgor wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i ymdrin â meysydd arbenigol ac mewn un achos Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
15. Mae'r Comisiwn wedi ymgynghori ynghylch p'un a yw unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol yn briodol i adlewyrchu'r ymrwymiad amser ychwanegol a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â CBC, neu b'un a yw amser a chyfrifoldebau'r rolau hyn yn rhan o'u cyfrifoldebau gweithredol ehangach. Mae'r ymatebion yn peri i ni gasglu fod angen i ni gynnal ymchwil fwy penodol yn y maes hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Gwneir hyn yn ystod y flwyddyn i ddod, a bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2028-29.

Aelodau cyfetholedig a lleyg

16. Uwchraddiodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gydnabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig prif gynghorau, awdurdodau parc cenedlaethol (APC) ac awdurdodau tân ac achub (ATA) ddiwethaf yn ei adroddiad blynyddol 2022³ a chynhwysodd aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig (CBC) yn ei adroddiad atodol 2024⁴. Roedd y cyfraddau yn gysylltiedig â'r cyfraddau penodiadau cyhoeddus a dalwyd gan Lywodraeth Cymru, nad ydynt wedi cael eu huwchraddio ers rhai blynyddoedd.
17. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hadolygiad o'r cyfraddau hyn. Cynyddwyd y cyfraddau ar gyfer cyrff ym Mand 2, yr oedd cyfraddau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyd-fynd â nhw, i £205 y dydd ar gyfer aelodau cyffredin.
18. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynyddu'r cyfraddau ar yr adeg hon fel nad yw eu gwerth yn cael ei erydu gan gynnydd mewn costau byw, a bydd yn cymhwyso'r un cynnydd 3% i gyfraddau aelodau cyfetholedig a lleyg ag y mae'n ei gymhwyso i aelodau etholedig.

² Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

³ Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2021 i 2022 | LLYW.CYMRU

⁴ Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adolygiad o dâl i aelodau lleyg ar gyd-bwyllgorau corfforedig | LLYW.CYMRU

Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau)

19. Yn dilyn y Gorchymyn i ddiwygio trefniadau llywodraethu ATAau yng Nghymru⁵, cyhoeddom ein Hadroddiad Drafft Atodol ar Gydabyddiaeth Ariannol: Awdurdodau Tân ac Achub⁶ ar 3 Gorffennaf 2026. Rydym wedi cynnig y cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol canlynol ar gyfer aelodau ATA.

	Cyfradd ddyddiol	Cyfradd hyd at 4 awr	Cyfradd fesul awr
Cadeirydd	£348	£174	£43.50
Dirprwy Gadeirydd neu Gadeirydd Pwyllgor	£322	£161	£40.25
Aelod o'r Bwrdd	£292	£146	£36.50

20. Ar 13 Gorffennaf 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ymyrraeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cael ei hystyried tan ar ôl etholiadau lleol mis Mai 2027⁷.
21. Mae aelodau gweithredol cynghorau wedi cael eu henwebu i ymuno â phwyllgor pontio ar gyfer ATA De Cymru, yn hytrach na'r rôl aelod o'r bwrdd a ddisgrifir yn y Gorchymyn. Byddant yn cynghori'r Comisiwnwyr yn hytrach na chyflawni rôl weithredol, am y tro.
22. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y tri ATA ar ôl etholiadau lleol 2027.
23. Bydd y Comisiwn yn ystyried y newid dros dro hwn i rolau ac amseru cyflwyno'r trefniadau llywodraethu newydd wrth wneud ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol rolau ATA, y mae'n bwriadu eu cyhoeddi erbyn 25 Medi 2026.

Canllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

24. Symudwyd nifer o benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, yr oedd llawer ohonynt yn ymwneud â chyhoeddi cydnabyddiaeth ariannol cynghorau, o adroddiadau blynyddol i ganllawiau⁸, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024.
25. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r canllawiau hyn, ac mae'n gwneud penderfyniadau drafft sy'n eu diweddarau, gan gynnwys newidiadau sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y sail ddeddfwriaethol i'n gwaith bellach wedi'i chynnwys yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013.

Ymgysylltu

26. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a Chymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru fel y cyrff cynrychioliadol ar draws y teulu llywodraeth leol, yn ogystal ag awdurdodau unigol, ac yn ystyried eu barn wrth i ni wneud ein penderfyniadau, gan barhau i ystyried effaith ein penderfyniadau ar gyllidebau awdurdodau.

⁵ [Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub \(Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfuno\) \(Cymru\) 2026](#)

⁶ [Adroddiad drafft atodol ar gydnabyddiaeth ariannol: Awdurdodau Tân ac Achub](#)

⁷ [Datganiad Ysgrifenedig: Ymyrryd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: Y camau nesaf \(13 Gorffennaf 2026\) | LLYW.CYMRU](#)

⁸ [Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: Canllawiau ar Gydabyddiaeth Ariannol \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Ymaddasu

27. O dan adran 69D Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013, mae'n ofynnol i ni wneud penderfyniadau ynglŷn â thaliadau ymaddasu i aelodau awdurdodau lleol nad ydynt yn cael eu hailethol yn etholiadau lleol 2027. Fodd bynnag, mae'r gofyniad hwn yn dibynnu ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu'r awdurdodau lleol perthnasol, a nodwyd bellach na fydd y rhain yn cael eu gwneud. Oherwydd hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw gynigion ynglŷn â'r mater hwn.

Pennod 2. Penderfyniadau ar gyfer 2027-28

Prif gynghorau

Penderfyniad 1/2027: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau

28. Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i'r holl aelodau etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am gyfrifoldeb cynrychiolaeth gymunedol a chyfranogiad mewngwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar drefn gyfwerth ag amser llawn o 3 diwrnod yr wythnos. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ymrwymiad amser hwn, ac ni chynhigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2026-27.
29. Mae'r Comisiwn yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus a'r effaith y bydd ei benderfyniadau'n ei chael ar gyllidebau prif gynghorau. Mae'r Comisiwn hefyd yn ymwybodol o'n nodau a'n hamcanion i gynnal lefelau cydnabyddiaeth ariannol nad ydynt yn cael eu dibrisio gan gynnydd mewn costau byw, darparu pecyn rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog cynrychiolaeth amrywiol.
30. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn briodol gwroddi wrth ystadegau ASHE⁹ a symud i Fynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH)¹⁰ y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2027 i 31 Mawrth 2028. Mae hyn yn 3% ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, sef y ffigur diweddaraf a oedd ar gael ar yr adeg ysgrifennu. Y cyflog sylfaenol fydd £21,676, sef 3% yn uwch na 2026-27.

Penderfyniad 2/2027: Cyflogau a delir i aelodau uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau

31. Mae pob cyflog uwch yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol pob rôl a rhwng pob rôl yn cael eu cydnabod mewn fframwaith bandio. Ni chynigir unrhyw newidiadau i fandiau eleni.
32. Bydd yr elfen cyflog sylfaenol yn cael ei chodi yn unol â CPIH, a bydd yr un cynnydd hefyd yn berthnasol i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3, 4 a 5, gan roi cynnydd 3% i bob rôl.
33. Felly, cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £81,284. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu drwy gyfeirio at hyn ac fe'u nodir yn Nhablau 1 a 2 isod.

⁹ [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰ [Mynegeion chwyddiant a phrisiau – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Tabl 1: Cyflogau sy'n daladwy i aelodau sylfaenol, uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau

Disgrifiad	Swm
Grŵp A	
Band 1 arweinydd	£81,284
Band 1 dirprwy arweinydd	£56,899
Band 2 aelod gweithredol	£48,770
Grŵp B	
Band 1 arweinydd	£73,156
Band 1 dirprwy arweinydd	£51,209
Band 2 aelod gweithredol	£43,893
Grŵp C	
Band 1 arweinydd	£69,091
Band 1 dirprwy arweinydd	£48,364
Band 2 aelod gweithredol	£41,455
Pob prif gyngor	
Cyflog sylfaenol	£21,676
Band 3 cadeirydd pwyllgor (os talwyd)	£32,514
Band 4 arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf	£32,514
Band 5 arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill (os talwyd) a dirprwy bennaeth dinesig	£26,011
Pennaeth dinesig (os talwyd)	£32,514
Dirprwy bennaeth dinesig (os talwyd)	£26,011
Aelod llywyddol (os talwyd)	£32,514
Dirprwy aelod llywyddol (sylfaenol yn unig)	£21,676

Tabl 2: Grwpiau Cyngor yn ôl poblogaeth

Grŵp A Poblogaeth dros 200,000	Grŵp B Poblogaeth 100,000 i 200,000	Grŵp C Poblogaeth hyd at 100,000
Caerdydd Rhondda Cynon Taf Abertawe	Pen-y-bont ar Ogwr Caerffili Sir Gaerfyrddin Conwy Sir y Fflint Gwynedd Casnewydd Castell-nedd Port Talbot Sir Benfro Powys Bro Morgannwg Wrecsam	Blaenau Gwent Ceredigion Sir Ddinbych Ynys Môn Merthyr Tudful Sir Fynwy Torfaen

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddion a delir i aelodau etholedig.

Penderfyniad 3/2027: Terfyn ar gyflogau uwch sy'n daladwy i aelodau prif gynghorau

34. Mae'r terfyn ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy, a adwaenir fel y cap, yn ddigynfnewid. Amlinellir hyn yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Uchafswm nifer aelodau cynghorau sy'n gymwys i gael cyflog uwch

Cyngor	Grŵp	Nifer y cynghorwyr Cyn etholiadau lleol 2027	Ar ôl etholiadau lleol 2027	Uchafswm cyflogau uwch sy'n daladwy
Caerdydd	A	79		19
Rhondda Cynon Taf	A	75		19
Abertawe	A	75		19
Pen-y-bont ar Ogwr	B	51		18
Caerffili	B	69	68	18
Sir Gaerfyrddin	B	75	74	18
Conwy	B	55		18
Sir y Fflint	B	67		18
Gwynedd	B	69		18
Castell-nedd Port Talbot	B	60		18
Casnewydd	B	51		18
Sir Benfro	B	60		18
Powys	B	68		18
Bro Morgannwg	B	54	59	18
Wrecsam	B	56		18
Blaenau Gwent	C	33		16
Ceredigion	C	38		17
Sir Ddinbych	C	48		17
Ynys Môn	C	35		17
Merthyr Tudful	C	30		15
Sir Fynwy	C	46		17
Torfaen	C	40		17

Penderfyniad 4/2027: Darpariaethau absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau

35. Yn y penderfyniad hwn, mae absenoldeb teuluol yn cyfeirio at absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu a rhieni o fusnes swyddogol.
36. Diffinnir y gwahanol gategorïau hyn yn [Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol \(Cymru\) 2013](#). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y gwahanol fathau o absenoldeb yn [Absenoldeb o gyfarfodydd awdurdodau lleol: absenoldeb teuluol \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#).
37. Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol o dan y rheoliadau gwreiddiol neu unrhyw ddiwygiad i'r rheoliadau ni waeth beth fo'r cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.
38. Pan fydd deiliad cyflog uwch yn gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol, bydd yn parhau i dderbyn y cyflog am gyfnod yr absenoldeb.

39. Mae'n fater i'r awdurdod benderfynu a ddylid penodi dirprwy. Bydd yr aelod etholedig sy'n cymryd lle'r deiliad cyflog uwch sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.
40. Os bydd penodi dirprwy cyflogedig yn golygu bod gan yr awdurdod fwy nag uchafswm nifer y cyflogau uwch sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynnyddol ar Gydabyddiaeth Ariannol y Comisiwn, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm am gyfnod y dirprwyad, oni bai y byddai hyn yn golygu bod nifer y cyflogau uwch yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Bydd angen cymeradwyaeth benodol Gweinidogion Cymru mewn amgylchiadau o'r fath.
41. Pan fydd cyngor yn cytuno ar ddirprwyad cyflogedig ar gyfer absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu'r Comisiwn am y manylion, gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad, o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad.
42. Rhaid diwygio Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol y cyngor i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.

Penderfyniad 5/2027: Cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch

43. Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag 1 swydd uwch o fewn ei awdurdod.
44. Ni ddylid talu cyflog uwch a chyflog dinesig i aelod etholedig.
45. Mae pob cyflog uwch a dinesig yn cynnwys cyflog sylfaenol.
46. Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag 1 dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng y cyflog uwch ar gyfer y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at y cyflog uwch ar gyfer aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r cyflog uwch sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

Penderfyniad 6/2027: Cyfyngiadau ar daliadau am swyddi y tu allan i'r prif gyngor

47. Ar hyn o bryd, ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC neu ATA y maent wedi'u penodi iddo, nac unrhyw gyngor cymuned neu dref y maent yn aelod ohono. Rydym yn ymgynghori ar wahân ar newidiadau i daliadau i gynghorwyr gweithredol sy'n aelodau o ATAAu, fel y manylir yn ein Hadroddiad Drafft Atodol ar Gydabyddiaeth Ariannol: Awdurdodau Tân ac Achub¹¹.
48. Maent yn parhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan yr APC, yr ATA neu'r cyngor cymuned neu dref.
49. Pan fydd y sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.

Penderfyniad 7/2027: Cymorth i aelodau etholedig prif gynghorau

50. Rhaid i bob awdurdod, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, sicrhau bod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngwrwyd digonol sy'n rhoi mynediad electronig at wybodaeth briodol.
51. Dylai cymorth o'r fath fod heb unrhyw gost i'r aelod unigol. Rhaid i'r awdurdod priodol beidio â gwneud didyniadau o gyflogau aelodau fel cyfraniad tuag at gost cymorth y mae'r awdurdod

¹¹ [Adroddiad drafft atodol ar gydnabyddiaeth ariannol: Awdurdodau Tân ac Achub | CDFfC](#)

wedi penderfynu ei fod yn angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd aelodau.

Penderfyniad 8/2027: Cyflogau uwch penodol neu ychwanegol a chynorthwywyr y weithrediaeth

52. Gall prif gynghorau wneud cais am gyflogau uwch penodol neu ychwanegol nad ydynt yn dod o fewn y fframwaith presennol.
53. Bydd y Comisiwn yn penderfynu fesul achos beth fydd y cyflog uwch priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth.
54. Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar y broses ymgeisio ym mis Ebrill 2014¹². Bydd y Comisiwn yn parhau i gymhwyso'r canllawiau hyn i unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

Penderfyniad 9/2027: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

55. Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn parhau i fod yn berthnasol i holl aelodau etholedig prif gynghorau.

Penderfyniad 10/2027: Taliadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer deiliaid cyflog uwch prif gynghorau

56. Mae'r fframwaith yn darparu trefniadau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch hirdymor i ddeiliaid cyflog uwch.
57. Diffinnir salwch hirdymor fel absenoldebau ardystiedig dros 4 wythnos.
58. Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch yw 26 wythnos neu hyd nes y bydd cyfnod swydd yr unigolyn yn dod i ben, pa un bynnag a ddaw gyntaf (ond os caiff ei ailbenodi bydd unrhyw falans sy'n weddill o'r 26 wythnos yn cael ei gynnwys).
59. O fewn y paramedrau hyn, gall deiliad cyflog uwch ar absenoldeb oherwydd salwch hirdymor barhau i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os dyna yw penderfyniad yr awdurdod.
60. Yr awdurdod sy'n penderfynu a ddylid penodi dirprwy, ond bydd y dirprwy'n gymwys i gael y cyflog uwch sy'n briodol i'r swydd.
61. Os bydd penodi dirprwy cyflogedig yn golygu bod gan yr awdurdod fwy nag uchafswm nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy ar gyfer yr awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blyneddol ar Gydabyddiaeth Ariannol, caniateir ychwanegiad am gyfnod y dirprwyad, oni bai y byddai hyn yn golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn derbyn cyflog uwch. Byddai angen caniatâd Gweinidogion Cymru i fynd yn uwch na'r terfyn hwn. Ni fyddai'n berthnasol ychwaith o ran aelod gweithredol y cyngor pe byddai'n golygu bod gan y cabinet fwy na 10 swydd, sef yr uchafswm statudol.
62. Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwyad cyflogedig, rhaid hysbysu'r Comisiwn am y manylion, gan gynnwys y swydd benodol a hyd amcangyfrifedig y dirprwyad, o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad. Rhaid diwygio Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdod yn unol â hynny.
63. Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig prif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid swyddi uwch gan eu bod yn parhau i dderbyn cyflog sylfaenol am o leiaf 6 mis ni waeth beth fo'u presenoldeb ac mae unrhyw estyniad y tu hwnt i'r amserlen hon yn fater i'r awdurdod.

¹² [Cais am uwch gyflog penodol tu allan i fframwaith presennol y panel](#)

Penderfyniad 11/2027: Cyflogau ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh)

64. Bydd cyflog cadeirydd CBTCh yn parhau i gyfateb i draean o Fand 3, a bydd yn cael ei osod ar £10,838.
65. Mae cyflog is-gadeirydd wedi'i osod ar 50% o gyflog Cadeirydd, a bydd yn £5,419.
66. Nid oes unrhyw newidiadau eraill yn ymaeshwn.

Awdurdodau Parc Cenedlaethol (APC)

Penderfyniad 12/2027: Taliadau i aelodau APC

67. Ffurfiwyd y 3 pharc cenedlaethol yng Nghymru; Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog, i ddiogelu tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu APC ar gyfer pob parc. Mae APCau yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Mae aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y cyngor yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol.
68. Ni chaniateir i aelodau etholedig a enwebwyd gan eu cyngor sy'n derbyn cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw gyflog ychwanegol o'u rôl mewn APC.
69. Bydd y gydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyflog uwch Band 3 prif gyngor. Bydd eu helpen rôl yn cynyddu yn unol â hynny. Bydd dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau a swyddi uwch cyflogedig eraill yn parhau i fod yn gysylltiedig â Band 5. Nodir manylion llawn lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau APCau yn Nhabl 4.
70. Yn unol â phenderfyniad y Comisiwn i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, mae lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyffredin APCau hefyd yn cael ei chynyddu yn unol â'r CPIH.

Tabl 4: Taliadau i aelodau APC

Rôl	Swm
Cyflog sylfaenol aelod cyffredin	£6,114
Cadeirydd	£16,952
Dirprwy gadeirydd (pryd penodir un)	£10,449
Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall	£10,449

71. Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch APC.
72. Telir cyflog uwch APC ynghyd â chyflog sylfaenol yr APC.
73. Ni all aelodau prif gyngor sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC y maent wedi'u penodi iddo. Pan fydd y sefyllfa hon yn berthnasol, mae'r aelod unigol yn gyfrifol am gydymffurfio.

Awdurdodau Tân ac Achub (ATA)

Penderfyniad 13/2027: Taliadau i aelodau ATA

74. Mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â chydabyddiaeth ariannol ATAAu cyn y diwygiadau i'r trefniadau llywodraethu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael eu gweithredu yn dilyn etholiadau lleol 2027.
75. Byddwn yn cyhoeddi penderfyniadau ar gyfer ATAAu yn dilyn y newidiadau hyn mewn adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol erbyn 25 Medi 2026.
76. Bydd y cyfraddau a ddisgrifir yma yn daladwy hyd nes y gweithredir y newidiadau i drefniadau llywodraethu.
77. Ffurfiwyd y tri ATA yng Nghymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru, yn rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Mae ATAAu yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y prif gynghorau o fewn pob ardal gwasanaeth tân ac achub.
78. Mae aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y cyngor yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol.
79. Ni chaniateir i aelodau etholedig a enwebwyd gan eu cyngor sy'n derbyn cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw gyflog ychwanegol o'u rôl mewn ATA.
80. Bydd y gydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyflog uwch Band 3 prif gyngor. Bydd eu helpen rôl yn cynyddu yn unol â hynny. Bydd dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau a swyddi uwch cyflogedig eraill yn parhau i fod yn gysylltiedig â Band 5. Nodir manylion llawn lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau ATAAu yn Nhabl 5.
81. Yn unol â phenderfyniad y Comisiwn i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, mae lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyffredin ATAAu hefyd yn cael ei chynyddu yn unol â'r CPIH.

Tabl 5: Taliadau i aelodau ATA

Rôl	Swm
Cyflog sylfaenol aelod cyffredin	£3,057
Cadeirydd	£13,895
Dirprwy gadeirydd (pryd penodir un)	£7,392
Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall	£7,392

82. Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch ATA.
83. Telir cyflog uwch ATA ynghyd â chyflog sylfaenol yr APC ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.
84. Ni all aelodau prif gyngor sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA y maent wedi'u penodi iddo. Pan fydd y sefyllfa hon yn berthnasol, mae'r aelod unigol yn gyfrifol am gydymffurfio.

Cynghorau Cymuned a Thref (CCTh)

Penderfyniad 14/2027: Taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref (CCTh)

85. Ni all aelodau sy'n derbyn cyflog Band 1 neu Fand 2 gan brif gyngor dderbyn unrhyw daliad gan gyngor cymuned neu dref y maent yn aelod ohono. Byddant yn parhau i fod yn gymwys i hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan y cyngor cymuned neu dref. Pan fydd y sefyllfa hon yn berthnasol, mae'r aelod unigol yn gyfrifol am gydymffurfio.
86. Gall CCThau ddewis talu iawndal am golled ariannol i'w haelodau, pan fydd colled o'r fath wedi digwydd yn sgil mynychu dyletswyddau cymeradwy. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynyddu'r cyfraddau yn ôl y CPIH, sef 3% ym mis Mai 2026, fel a ganlyn:
- Hyd at £69.47 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr.
 - Hyd at £138.95 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr.
87. Heblaw am y newid hwn i'r iawndal am golledion ariannol, ni wneir unrhyw newidiadau i daliadau i aelodau CCTh. Nodir y gdnabyddiaeth ariannol sy'n ddyledus yn Nhablau 6 a 7 isod.

Tabl 6: Taliadau i aelodau CCThau

Math o daliad	Grŵp 1	Grŵp 2 a 3	Grŵp 4 a 5
Taliad costau ychwanegol	£156 yn orfodol i bob aelod	£156 yn orfodol i bob aelod	£156 yn orfodol i bob aelod
Rôl uwch	£500 yn orfodol i 1 aelod; yn ddewisol i hyd at 7	£500 yn orfodol i 1 aelod; yn ddewisol i hyd at 5	Yn ddewisol i hyd at 3 aelod
Maer neu gadeirydd	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy faer neu gadeirydd	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500
Lwfans presenoldeb	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30	Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30
Colled ariannol	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Teithio a chynhaliaeth	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Costau gofal neu gymorth personol	Gorfodol	Gorfodol	Gorfodol
Nwyddau traul swyddfa	£52 yn orfodol neu ad-daliad llawn i'r holl aelodau	£52 yn orfodol neu ad-daliad llawn i'r holl aelodau	£52 yn orfodol neu ad-daliad llawn i'r holl aelodau

Tabl 7: Grwpiau CCTh yn ôl etholwyr

Grŵp	Etholwyr
1	dros 14,000
2	10,000 i 13,999
3	5,000 i 9,999
4	1,000 i 4,999
5	o dan 1,000

Os bydd incwm neu wariant blyneddol cyngor cymuned neu dref yn fwy na £200,000 yn barhaol, fe'i symudir i'r grŵp mwyaf nesaf.

Penderfyniadau sy'n berthnasol i nifer o fathau o awdurdodau

Penderfyniad 15/2027: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg Cyd-bwyllgorau Corfforedig

88. Rhaid i brif gynghorau, APCau, ATAAu a CBCau dalu ffioedd ar y cyfraddau yn Nhabl 8 isod i'w haelodau cyfetholedig a lleyg sydd â hawliau pleidleisio.
89. Yn unol â phenderfyniad y Comisiwn i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, mae lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyfetholedig a lleyg sydd â hawliau pleidleisio hefyd yn cael ei chynyddu yn unol â'r CPIH.
90. Rhaid i'r swyddog priodol o fewn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod. Pan fydd cyfarfod wedi'i bennu am ddiwrnod llawn, bydd yffi yn cael ei thalu ar y sail hon hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen o fewn 4 awr.
91. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog priodol benderfynu pryd byddyn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Tabl 8: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig a lleyg (sydd â hawliau pleidleisio)

Rôl	Taliad cyfradd fesul awr	Cyfradd talu hyd at 4 awr	Cyfradd talu 4 awr a mwy
Cadeiryddion pwyllgorau safonau ac archwilio	£34.50	£138	£276
Cadeiryddion lleyg CBCau	£34.50	£138	£276
Aelodau cyffredin Pwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref	£30.50	£122.50	£245
Aelodau lleyg cyffredin CBCau	£30.50	£122.50	£245
Aelodau cyffredin Pwyllgorau Safonau; Pwyllgor Craffu ar Addysg; Pwyllgor Craffu ar Drosedd ac Anhrefn a'r Pwyllgor Archwilio	£27	£108	£216
Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n eistedd ar Bwyllgorau Safonau Prif Gyngor	£27	£108	£216

92. Mae amser teithio i leoliad cyfarfod ac yn ôl i'w gynnwys yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
93. Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgoreddau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd ymlaen llaw gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu.
94. Mae amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig y gall y swyddog priodol benderfynu ar ei faint cyn y cyfarfod.
95. Rhaid i bob awdurdod, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, sicrhau bod pob aelod cyfetholedig sydd â hawl pleidleisio yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gost i'r aelod unigol.

96. Mae aelodau cyfetholedig a llyeg awdurdodau perthnasol sydd â hawliau pleidleisio hefyd yn gallu hawlio taliadau teithio, cynhaliaeth, gofal a chymorth personol fel y nodir yn yr adrannau isod.

Penderfyniad 16/2027: Costau teithio, cynhaliaeth, gofal, a chymorth personol ar gyfer pob awdurdod perthnasol

97. Mae'r cyfraddau ad-dalu milltiroedd, costau teithio eraill a chostau cynhaliaeth y gellir eu hawlio gan aelodau prif gynghorau, APCau, ATAAu, a'u haelodau cyfetholedig, ac aelodau CBCau a'u haelodau llyeg wedi'u nodi isod.
98. Gall Cynghorau Cymuned a Thref ddewis ad-dalu costau teithio a/neu gynhaliaeth. Pan fydd yr opsiwn i ad-dalu wedi'i ddewis, rhaid iddo gydymffurfio â'r hyn a nodir yn y penderfyniad hwn.

Costau milltiroedd

99. Rhaid i ad-daliad fod ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau EF (CThEF).¹³

Costau teithio eraill

100. Rhaid ad-dalu pob hawliad arall am deithio, gan gynnwys mewn tacsï os hwn yw'r unig ddull teithio neu'r dull mwyaf priodol, ar y gost wirioneddol sydd i'w gweld ar dderbynebau.

Costau cynhaliaeth

101. Mae'r cyfraddau uchaf ar gyfer taliadau cynhaliaeth wedi'u nodi isod:
- £28 fesul cyfnod o 24 awr fel lwfans ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu
 - £200 ar gyfer aros yn Llundain dros nos
 - £95 ar gyfer aros mewn mannau eraill dros nos
 - £30 ar gyfer aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos

Costau Gofal a Thaliadau Cymorth Personol

102. Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal plant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn.
- Costau gofal ffurfiol (cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru neu gyfwerth) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
 - Costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) i'w talu hyd at uchafswm cyfradd sy'n cyfateb i'r cyfraddau awr Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw¹⁴ ar yr adeg yr ysgwyddir y costau.
103. Rhaid i hyn fod ar gyfer y costau ychwanegol a ysgwyddir gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig yn briodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy.

¹³ [Teithio – cyfraddau a lwfansau milltiroedd a thanwydd - GOV.UK](#)

¹⁴ [Beth yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol? | Y Sefydliad Cyflog Byw](#)

Penderfyniad 17/2027: Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer prif gynghorau, APCau ac ATAAu

104. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAAu gynnal Atodlen flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau (yr 'Atodlen') yn unol â phenderfyniadau'r Comisiwn ar gyflogau aelodau a thaliadau aelodau cyfetholedig.
105. Rhaid i'r Atodlen gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- a) Aelodau a enwyd sydd i dderbyn y cyflog sylfaenol yn unig a'r swm sydd i'w dalu.
 - b) Aelodau a enwyd sydd i dderbyn cyflog uwch, gan nodi'r swydd, y band, y portffolio a ddelir a'r swm sydd i'w dalu.
 - c) Aelodau a enwyd sydd i dderbyn cyflog dinesig a'r swm sydd i'w dalu.
 - ch) Aelodau a enwyd sydd i dderbyn ffi aelod cyfetholedig a ph'un a yw'n gadeirydd neu'n aelod cyffredin, a'r swm sydd i'w dalu.
 - d) Aelodau a enwyd sydd i dderbyn cyflog uwch fel cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu Is-bwyllgor a'r swm sydd i'w dalu.
 - dd) Aelodau a enwyd sy'n derbyn cyflog uwch penodol neu ychwanegol a gymeradwywyd gan y Panel a'r swm sydd i'w dalu.
106. Rhaid i brif gynghorau hefyd gadarnhau yn eu Hatodlen flynyddol na aethpwyd yn fwy na'r terfyn uchaf ar gyfer cyflogau uwch a osodwyd ar gyfer y cyngor.
107. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAAu gynnwys datganiad o dreuliau a ganiateir yn eu Hatodlen flynyddol yn unol â phenderfyniadau'r Panel.
108. Rhaid i'r Atodlen nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i'r holl aelodau ac aelodau cyfetholedig ar gyfer gwneud hawliadau am gostau gofal a chymorth personol, teithio a chynhaliaeth, y trefniadau ar gyfer osgoi dyblygu a'r trefniadau ar gyfer ad-dalu cyflogau, lwfansau a ffioedd.
109. Mae'r Atodlen yn cynnwys y dyletswyddau y mae aelodau ac aelodau cyfetholedig yn gallu hawlio ad-daliad ar eu cyfer tuag at gostau teithio, cynhaliaeth a gofal a chymorth personol.
110. Rhaid i brif gynghorau ddatgan yn yr Atodlen:
- P'un a oes datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd ar waith.
 - P'un a oes disgrifyddion o rolau deiliaid swydd cyflog uwch ar waith.
 - P'un a gedwir cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr.
111. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAAu gyhoeddi'r Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol cyn gynted ag sy'n ymarferol ac erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Dylai'r Atodlen gael ei chyhoeddi ar ffurf ac mewn lleoliad sy'n hygyrch i'r cyhoedd.
112. Rhaid i'r Atodlen hefyd gael ei hanfon at y Comisiwn drwy e-bost at remuneration@dbcc.gov.wales er mwyn ei derbyn erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf.
113. Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd yn brydlon i unrhyw newidiadau i'r Atodlen yn ystod y flwyddyn yn y modd uchod a hysbysu'r Comisiwn yn brydlon am yr holl newidiadau.

Penderfyniad 18/2027: Datganiad o Daliadau ar gyfer prif gynghorau, APCau, ATAAu a CCThau

114. Rhaid i awdurdodau perthnasol gyhoeddi Datganiad o Daliadau a wnaed i'w haelodau ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
115. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar ffurf ac mewn lleoliad sy'n hygyrch i'r cyhoedd erbyn 30 Medi fan bellaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

116. Rhaid i'r un wybodaeth gael ei darparu i'r Comisiwn drwy e-bost at remuneration@dbcc.gov.wales o fewn yr un raddfa amser.
117. Rhaid darparu'r wybodaeth ganlynol:
- Swm y cyflog sylfaenol, cyflog uwch, cyflog dinesig a ffi aelod cyfetholedig a dalwyd i bob aelod ac aelod cyfetholedig a enwyd o'r awdurdod perthnasol, gan gynnwys lle'r oedd yr aelod wedi dewis ildio'r cyflog cyfan neu ran ohono, neu'r ffi ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol dan sylw. Pan fydd cyflog uwch wedi'i dalu, dylid darparu teitl y swydd uwch a ddelir.
 - Mae'n bwysig ystyried yr effaith bosibl ar breifatrwydd a diogelwch aelodau wrth gyhoeddi elfennau o gydnabyddiaeth ariannol aelodau.
 - Mae llawer o'r taliadau a wneir i aelod yn fater o gofnod cyhoeddus, er enghraifft cyflogau sylfaenol a chyflogau uwch. Dylid parhau i gyhoeddi'r rhain fesul aelod unigol.
 - Ystyrir bod treuliau sy'n ymwneud â chostau taliadau gofal a chymorth personol yn wahanol. Rhaid i brif gynghorau gyhoeddi'r wybodaeth hon ar sail y cyfanswm a dalwyd i'r holl aelodau.
118. Mae'r canlynol yn berthnasol i gynghorau cymuned a thref yn unig. Y taliadau a wnaed gan gynghorau cymuned a thref i aelodau a enwyd fel:
- Taliadau gorfodol tuag at dreuliau ychwanegol y cartref sy'n gysylltiedig â gweithio gartref ar fusnes y cyngor. Dylid adrodd ar y ffigurau hyn yn fyd-eang ar y Datganiad o Daliadau.
 - Taliadau gorfodol tuag at nwyddau traul swyddfa sy'n deillio o weithio gartref. Dylid adrodd ar y ffigurau hyn yn fyd-eang ar y Datganiad o Daliadau.
 - Taliadau cyfrifoldeb
 - Lwfansau a wnaed i faer neu gadeirydd a dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd
 - lawndal am golled ariannol
 - Costau a gafwyd yn gysylltiedig â theithio a chynhaliaeth. Dylid adrodd ar y ffigurau hyn yn fyd-eang ar y Datganiad o Daliadau.
 - Unrhyw daliadau a wnaed i fynychu ar gyfer busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy
119. Yr holl gostau teithio a chynhaliaeth a thaliadau eraill a dderbyniwyd gan bob aelod ac aelod cyfetholedig a enwyd o'r awdurdod perthnasol, gan nodi pob categori ar wahân.
120. Swm unrhyw daliadau ychwanegol a dderbyniwyd gan unrhyw aelod a enwyd a enwebwyd i awdurdod perthnasol arall neu gorff cyhoeddus arall, neu a benodwyd iddo, fel y'i diffinnir gan Adran 69K Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013¹⁵, sef:
- bwrdd iechyd lleol
 - Panel yr heddlu a throseddau
 - awdurdod perthnasol
 - corff a ddynodwyd yn gorff cyhoeddus mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.
121. Enwau aelodau nad oeddent wedi derbyn cyflog sylfaenol neu gyflog uwch oherwydd eu bod wedi'u hatal dros dro am yr holl gyfnod blynyddol, neu ran ohono, y mae'r Atodlen yn berthnasol iddo.
122. O ran cyhoeddi'r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol, mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol gyhoeddi'r cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn a chyfanswm nifer y derbynyddion yn unig.

¹⁵ [Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013](#)

123. Mater i bob awdurdod yw penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y mae'n eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion hawliadau unigol gael eu datgelu.
124. Mae'n ofynnol cyhoeddi a darparu ffurflenni sero i'r Panel erbyn 30 Medi.

Pennod 3. Crynodeb o'r penderfyniadau drafft ar gyfer 2027-28

1/2027

125. Mae'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau wedi'i osod ar £21,676.

2/2027

126. Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £81,284. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u pennu gan gyfeirio at hyn ac fe'u nodir yn Nhabl 1.

3/2027

127. Mae'r terfyn ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy, a adwaenir fel y cap, yn ddigyfnewid. Amlinellir hyn yn Nhabl 3.

4/2027

128. Mae cyflog sylfaenol aelodau APC ac ATA wedi'i gynyddu fel y nodir yn Nhabl 3.

5/2027

129. Mae cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth ariannol rôl uwch neu ddinesig i un rôl fesul aelod yn parhau i fod yn berthnasol, ac felly hefyd cynnwys y cyflog sylfaenol ym mhob cyflog uwch a dinesig, a'r cyfrifiad ar gyfer nifer o ddirprwy arweinwyr cyflogedig.

6/2027

130. Mae cyfyngiadau ar daliadau ar gyfer swyddi y tu allan i'r prif gyngor yn parhau i fod yn berthnasol i aelodau etholedig sy'n derbyn cyflog Band 1 neu Fand 2.

7/2027

131. Rhaid i brif gynghorau sicrhau bod eu holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

8/2027

132. Gall prif gynghorau barhau i wneud cais am gyflogau uwch penodol neu ychwanegol nad ydynt yn dod o fewn y fframwaith presennol.

9/2027

133. Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn parhau i fod yn berthnasol i holl aelodau etholedig prif gynghorau.

10/2027

134. Mae'r taliadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer deiliaid cyflog uwch prif gynghorau yn ddigyfnewid.

11/2027

135. Mae cyflog cadeirydd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei osod ar £10,838. Mae cyflog yr is-gadeirydd yn cael ei osod ar 50% o gyflog y cadeirydd, a bydd yn £5,419.

12/2027

136. Mae cyflog aelodau APC wedi cael ei gynyddu fel y nodir yn Nhabl 4.

13/2027

137. Mae cyflog aelodau ATA wedi cael ei gynyddu fel y nodir yn Nhabl 5.

14/2027

138. Mae'r iawndal dewisol am golled ariannol ar gyfer aelodau CCTh yn cael ei gynyddu i:

- hyd at £69.47 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr
- hyd at £138.95 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr

139. Mae'r holl daliadau eraill i aelodau CCThau yn ddigyfnewid.

15/2027

140. Rhaid i brif gynghorau, APCau, ATAau a CBCau dalu ffioedd sydd wedi'u cynyddu i'r cyfraddau yn Nhabl 8 i'w haelodau cyfetholedig a lleyg sydd â hawliau pleidleisio.

16/2027

141. Costau teithio, cynhaliaeth, gofal, a chymorth personol i'r holl awdurdodau perthnasol. Mae talu costau teithio a chynhaliaeth gan gynghorau cymuned a thref yn ddewisol.

17/2027

142. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau gyhoeddi a darparu Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

18/2027

143. Rhaid i brif gynghorau, APCau, ATAau a CBCau gyhoeddi a darparu Datganiad o Daliadau i'r Comisiwn erbyn 30 Medi bob blwyddyn.

Beth fydd yn digwydd nesaf

144. Er yr hoffem glywed gan gynifer ohonoch â phosibl am unrhyw un a phob un o'n penderfyniadau drafft, mae gennym y cwestiynau penodol hyn i'w gofyn i chi.
145. A yw'n briodol defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau perchenfeddianwyr (3% ym mis Mai 2026) i gynyddu'r rhan fwyaf o gyflogau a lwfansau? Os na, gan faint y dylid eu cynyddu? Pa fesur neu fesurau y dylem fod yn eu cymhwyso yn lle hynny?
146. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn ogystal ag ystyried effeithiau ein cynigion ar y Gymraeg. Bydd eich safbwyntiau'n helpu i lywio ein hasesiad o'r effeithiau hyn.
147. Pa effeithiau cadarnhaol, negyddol, neu anfwriadol posibl y gallai ein penderfyniadau drafft eu cael ar bobl sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig canlynol?

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Dywedwch wrthym pam y credwch y gallai'r effeithiau hyn godi. Croesawn unrhyw enghreifftiau perthnasol o'ch profiad neu'ch arsylwadau. Croesawn hefyd awgrymiadau ynglŷn â sut gallai unrhyw effeithiau negyddol gael eu lliniaru.

148. O ran y Gymraeg, pa effaith, os o gwbl, y bydd ein penderfyniadau drafft yn ei chael ar:
- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg?

Dywedwch wrthym am unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a ragwelwch, ac unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol.

149. Dylid anfon yr holl arsylwadau ar y penderfyniadau drafft hyn at:

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Pac Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu drwy e-bost at: remuneration@dbcc.gov.wales

erbyn 17 Rhagfyr 2026 fan bellaf.

150. I gael rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a'r broses benderfynu, cyfeiriwch at dudalen we'r Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru